

# Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio](http://www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddArchwilio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau

Gorffennaf 2019



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio](http://www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Gareth Bennett AC**  
UKIP Cymru  
Canol De Cymru



**Vikki Howells AC**  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Rhianon Passmore AC**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Adam Price AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Jenny Rathbone AC**  
Llafur Cymru  
Canol Caerdydd

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Neil Hamilton AC**  
UKIP  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>7</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>9</b>
<b>2. Cynnydd cyffredinol.....</b>	<b>11</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	13
<b>3. Mynediad at wasanaethau ac ymwybyddiaeth ohonynt.....</b>	<b>14</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	16
<b>4. Cydymffurfio â safonau cenedlaethol.....</b>	<b>18</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	20
<b>5. Ariannu'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau.....</b>	<b>21</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	24
<b>6. Problemau staffio a morâl .....</b>	<b>26</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	33
<b>7. Rheoli perfformiad.....</b>	<b>35</b>
Safonau a rheoli perfformiad .....	36
Casgliadau ac argymhellion.....	37
<b>8. Cynllunio strategol ac arweinyddiaeth gwasanaethau y tu allan i oriau.....</b>	<b>38</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	41
<b>9. Y berthynas rhwng y gwasanaeth I11 a gwasanaethau y tu allan i oriau.....</b>	<b>43</b>
Casgliadau ac argymhellion.....	45



## Rhagair y Cadeirydd

Mae gwasanaethau y tu allan i oriau'n rhan werthfawr a hanfodol o'r gwasanaeth iechyd sy'n darparu gofal sylfaenol brys pan fydd ei angen. Fodd bynnag, yn sgil heriau parhaus oherwydd problemau morâl a staffio, problemau wrth recriwtio meddygon teulu a diffyg data perfformiad o ansawdd sy'n amharu ar reolaeth effeithiol, mae'n wasanaeth dan straen.

Gan nad ydynt yn rhan greiddiol o'r gwasanaethau gofal sylfaenol, nid yw gwasanaethau y tu allan i oriau wedi'u hintegreiddio'n briodol â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill. Mae diffyg diffiniad clir o wasanaethau y tu allan i oriau a threfniadau gwael ar gyfer cyfeirio cleifion i wasanaethau iechyd a gofal priodol eraill yn golygu mai gwasanaethau y tu allan i oriau yw'r cyswllt cyntaf diodyn erbyn hyn i gleifion y mae angen iddynt ddefnyddio ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan fo eu meddygfeydd ar gau.

Clywsom y gall gweithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau fod yn lle digalon ac unig ac rydym yn croesawu'r flaenoriaeth a roddir gan rai byrddau iechyd i weithredu dull tîm amlddisgyblaethol o ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau. Credwn y bydd hyn yn hanfodol i hybu morâl staff a chreu amgylchedd tîm cadarnhaol lle y mae'r rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn.

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i bryderon am wasanaethau y tu allan i oriau y tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw atynt ac rydym yn nodi'r camau gweithredu y mae wedi'u pennu i fynd i'r afael â'r rhain. Mae hefyd wedi gosod gweithio amlddisgyblaethol wrth wraidd ei fodel trawsnewidiol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol 24/7 ac rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru i integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau'n llawn â'r gwasanaeth gofal sylfaenol ehangach. Dylai hyn agor yr ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y gall cleifion eu defnyddio. At hynny, bydd yn hanfodol sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i ddefnyddio'r gwasanaeth mwyaf priodol, gan fynd â'r straen oddi ar y gwasanaethau y tu allan i oriau.

Mae'n ymddangos bod arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau wedi bod yn ddiffygiol ac rydym yn croesawu'r datblygiadau a wnaed yn y maes hwn, gan gynnwys sefydlu'r Grŵp Gofal Brys. Mae gan y grŵp hwn rôl bwysig wrth ddatblygu modelau gofal a sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol, yn ogystal â helpu i ysgogi gwelliannau sydd eu hangen i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym yn cydnabod y cyfleoedd a geir o gyflwyno'r gwasanaeth 111 yn llawn o ran gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau y tu allan i oriau eu hintegreiddio â gwasanaethau eraill. Er ein bod yn croesawu'r datblygiadau sy'n cael eu rhoi ar waith i wella gwasanaethau y tu allan i oriau, byddwn yn parhau i fynd ati i fonitro cynnydd er mwyn sicrhau bod gwelliant yn cael ei gyflawni.



## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod capasiti yn y gwasanaeth y tu allan i oriau i roi sicrwydd i gleifion a'u helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. .... Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n dyrannu cyllid i fyrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y dyraniadau'n adlewyrchu'r anghenion gwasanaeth presennol yn fwy cywir ac yn rhoi mwy o dryloywder o ran buddsoddiad a gwariant gwirioneddol..... Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu arfer da ar draws byrddau iechyd yng Nghymru wrth wneud gwasanaethau y tu allan i oriau'n lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt, fel y dull gweithredu a fabwysiadwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan..... Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Mae pryder gennym am y dirywiad cyffredinol yn nifer y meddygon teulu ar gyfer gwasanaethau yn ystod y dydd ar draws Cymru, yn ogystal â gwasanaethau y tu allan i oriau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu polisiau i gynyddu nifer y meddygon teulu..... Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datrys problemau sy'n ymwneud ag ansawdd y data sydd ar gael ar nifer y meddygon teulu fel mater o frys oherwydd bod angen data gwell, gan gynnwys ar ofal y tu allan i oriau. Os mai timau amlddisgyblaethol sy'n darparu'r gwasanaethau y tu allan i oriau, mae'n hanfodol gwybod pwy sy'n gweithio ym mhob tîm, i ble y maent yn darparu'r gwasanaeth, a gallu olrhain nifer y staff dros y blynyddoedd. .... Tudalen 34

**Argymhelliad 6.** Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod nifer o broblemau'n codi yn sgil anghydraddoldebau cyflog meddygon teulu o gymharu hyn â'r sefyllfa yn Lloegr, yn ogystal â materion trethiant fel yr adroddwyd i ni mewn tystiolaeth. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau gweithredu a gymerwyd i wneud hynny. .... Tudalen 34

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod yr arfer da ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, o ran atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad, yn cael ei rannu â byrddau iechyd eraill a bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar sut y gall wella trefniadau o ran rhannu arfer da. Efallai y bydd angen i Lywodraeth

Cymru ystyried rhoi mwy o gyfarwyddyd, lle y bo'n bosibl, o ran arfer o'r fath a monitro cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau a roddir..... Tudalen 37

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymhell bod ein pwyllgor olynol yn y chweched Cynulliad yn trafod cynnydd a llwyddiant gweithredu'r gwasanaeth 111 ar ôl ei gyflwyno'n llawn yn 2021/22..... Tudalen 45

## 1. Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau<sup>1</sup> ym mis Gorffennaf 2018. Canfu'r adroddiad fod cleifion yn gwerthfawrogi gwasanaethau y tu allan i oriau, ond nad yw'r gwasanaethau'n cyrraedd safonau cenedlaethol a'u bod dan straen oherwydd problemau morâl a staffio. Mae gwybodaeth wael yn rhwystro rheolaeth effeithiol ar wasanaethau ac nid yw gwaith cynllunio y tu allan i oriau'n cael ei integreiddio'n briodol â gwasanaethau allweddol eraill. Mae cyflwyno gwasanaeth III newydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pwysig, ond ni all ddatrys yr holl faterion sy'n wynebu gwasanaethau y tu allan i oriau.
2. Mewn cyhoeddiad gan Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru ym mis Mai 2018, tynnwyd sylw hefyd at yr heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau y tu allan i oriau. Yn yr adroddiad, dywedwyd bod gwasanaethau'n "fregus", a nododd broblemau, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau, anawsterau recriwtio meddygon teulu a chymhlethdodau a achosir gan amrywiadau mewn trefniadau cyflog mewn byrddau iechyd gwahanol.<sup>2</sup>
3. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol mewn llythyrau dyddiedig 1 Awst 2018 a 14 Awst 2018.<sup>3</sup> Mae'r llythyrau'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r wyth argymhelliad.
4. Mae'r llythyrau'n sôn am raglen adolygu cymheiriaid genedlaethol, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018. Yr allbwn o'r adolygiad cymheiriaid ym mhob bwrdd iechyd oedd llythyr cryno, y bwriadwyd iddo fod yn sail i gynlluniau wedi'u datblygu'n lleol.<sup>4</sup>
5. Yn ei gyfarfod ar 1 Hydref 2018, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i wasanaethau y tu allan i oriau. Wrth baratoi ar gyfer yr ymchwiliad, cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor ymweliadau safle â nifer o wasanaethau y tu allan i oriau ar draws Cymru.
6. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar Wasanaethau Gofal Sylfaenol ar draws GIG Cymru yn ystod haf/hydref 2019, y bydd

---

<sup>1</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), Gorffennaf 2018

<sup>2</sup> Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), Mai 2018

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#) a [PAC\(5\)-25-18 Papur 5.1 Hydref 2018](#)

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-11-19 Papur 2](#), 29 Ebrill 2019

---

y Pwyllgor yn ei drafod, yn ogystal â chanfyddiadau'r adroddiad hwn, yn fanylach yn ddiweddarach eleni.

**7.** Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig yn:

[www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=22560](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=22560)

## 2. Cynnydd cyffredinol

**8.** Mae adolygiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio at adolygiad gweinidogol o 2012, a nododd fod gwasanaethau y tu allan i oriau'n anghynaliadwy a thynnodd sylw at ddiffyg buddsoddiad, cyfleoedd ar gyfer arbedion maint, diffyg data cymaradwy a phrinder staff meddygol.

**9.** Canfu adroddiad arall a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned ym mis Mai 2018, fod yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru wedi nodi bod eu gwasanaeth y tu allan i oriau'n fregus, gan nodi'r canlynol, "er gwaethaf y ffaith fod y byrddau iechyd wedi cymryd amryw gamau i fynd i'r afael â'r sialensiau, nid ydynt wedi gwneud unrhyw gynnydd sylweddol a pharhaol".<sup>5</sup>

**10.** Yn ei hymateb i adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at broses Adolygu Cymheiriaid, y disgwyliwyd iddi ddod i ben ym mis Rhagfyr 2018. Nod y broses dan arweiniad clinigol oedd deall y materion yn well a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ym mhob bwrdd iechyd.<sup>6</sup>

**11.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod y broses Adolygu Cymheiriaid wedi tynnu sylw at yr angen i'r sefydliad cyfan gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau y tu allan i oriau.<sup>7</sup> Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod y broses Adolygu Cymheiriaid wedi nodi meysydd i'w gwella a oedd yn gyson iawn â'r rhai a nodwyd gan adolygiadau blaenorol.<sup>8</sup>

**12.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhestr o ganlyniadau cadarnhaol o'r broses Adolygu Cymheiriaid, gan gynnwys ymgysylltu â staff, sylwadau adeiladol gan gymheiriaid, proffil uwch gwasanaethau y tu allan i oriau a chydabod arfer da. Bydd adborth ar bapur "gwersi a ddysgwyd" Cymru gyfan mewn digwyddiad cenedlaethol yn ystod haf 2019 ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar fodel o drawsnewid ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol 24/7.<sup>9</sup>

**13.** Yn y dyfodol, bwriad Llywodraeth Cymru yw edrych ar y ddarpariaeth o ystod ehangach o wasanaethau, a mynediad atynt, yn y cyfnod y tu allan i oriau, a hefyd y model 24/7 ar gyfer gofal sylfaenol. Bydd ei model o drawsnewid ar gyfer gofal

---

<sup>5</sup> Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), Tudalen 7, Mai 2018

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18.Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 147

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 236

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-11-19.Papur 2](#), 29 Ebrill 2019

sylfaenol a chymunedol 24/7 yn allweddol i welliannau gwasanaeth. Cefnogir y model gyda thîm amlddisgyblaethol. Bydd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio i gefnogi cleifion, yn ceisio diwallu'n effeithiol anghenion gofal heb ei gynllunio i alluogi pobl i aros gartref pryd bynnag y bo'n bosibl, a darparu mwy o gymorth i alluogi cleifion i gael eu rhyddhau'n gyflymach pan fo angen gofal eilaidd ar bobl.<sup>10</sup>

**14.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Fframwaith Polisi newydd ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu i nodi disgwyliadau ac uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer gofal heb ei drefnu yng Nghymru. Mae llawer wedi newid yn y deng mlynedd ers cyhoeddi Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys (CGGB) yn 2008, a bydd hyn yn gyfle i nodi sut y gellir integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau ymhellach yn arlwy newydd gofal sylfaenol 24/7.<sup>11</sup>

**15.** Wrth ddsbarthu cyflwr presennol gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau yng Nghymru, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, er bod gwasanaethau y tu allan i oriau'n parhau i fod yn wasanaeth dan bwysau, fod newidiadau wedi'u cyflwyno'n ddiweddarach, sy'n cysylltu gwasanaethau y tu allan i oriau â model gofal sylfaenol i Gymru Llywodraeth Cymru. Dylai hyn hwyluso mynediad gwell at y gwasanaethau a'r gofal sydd eu hangen ar gleifion, nad yw bob amser drwy feddyg teulu. Esboniodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, y canlynol:

"We feel that there is a real opportunity around out-of-hours services to make sure that patients don't always need to access the GP. They are an important part of our system and our oversight, but our own data would tell us that probably only around 30 per cent of all of the calls that we get into the system probably actually need a GP response; they can well access other practitioners within the system. And I think across Wales, it's still a system that occurs at scale. So, it has a really important role as a contribution to the way we run our unscheduled and urgent care services."<sup>12</sup>

**16.** Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o bwyntiau dysgu sy'n deillio o'i Broses Adolygu Cymheiriaid, gan gynnwys yr angen am gymorth o ran sut y mae gwasanaethau y tu allan i oriau'n cyd-fynd â gwasanaethau lleol, mwy o

---

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 19

gysondeb o ran rhai prosesau megis brysbennu a rhannu arfer da o ran dulliau gweithredu amlddisgyblaethol.<sup>13</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**17.** O'r dystiolaeth, mae'n amlwg bod gwasanaethau y tu allan i oriau'n parhau i fod dan bwysau gyda nifer o ffactorau'n effeithio ar y gwasanaeth, yn enwedig recriwtio staff a materion ariannol.

**18.** Rydym yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru wrth gynnal proses adolygiad cymheiriaid o wasanaethau y tu allan i oriau ac rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r gwersi a ddysgwyd yn ddiweddarach eleni. Mae hefyd yn galonogol gweld cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer model trawsnewidiol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol 24/7, a fydd yn defnyddio dull amlddisgyblaethol o ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau.

**19.** Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch yr amser rhwng yr adolygiad, a ddaeth i ben yn 2018, a'r ymgais i ledaenu arfer da mewn digwyddiad cenedlaethol yn ystod haf 2019. Mae angen mwy o frys wrth sicrhau gwelliant o ystyried bod y cynnydd wedi bod yn araf hyd yn hyn.

**20.** Credwn fod y model trawsnewidiol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yn hanfodol fel rhan o wasanaethau gofal lleol ehangach yn gweithredu'n fwy effeithlon a sicrhau y caiff cleifion eu cyfeirio i'r pwynt gofal cywir. Er bod rhai byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu dull amlddisgyblaethol, rydym yn ymwybodol bod llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod y model hwn yn gweithredu'n ehangach ar draws Cymru. Byddwn yn mynd ati i fonitro dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gofal sylfaenol a chymunedol er mwyn sicrhau bod dull amlddisgyblaethol yn gyson ar draws Cymru.

---

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraffau 22 - 23

### 3. Mynediad at wasanaethau ac ymwybyddiaeth ohonynt

**21.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod gan gleifion safbwyntiau cadarnhaol yn gyffredinol am wasanaethau y tu allan i oriau, ond bod angen gwella'r gwasanaeth cyfeirio.

**22.** Gwnaed rhai gwelliannau i'r gwasanaeth cyfeirio eisoes. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod dyfodiad 111 yn gam ymlaen mewn negeseuon cyhoeddus o ystyried bod un rhif ffôn bellach i'r cyhoedd ei ffonio lle y gellir eu cyfeirio i ystod o wasanaethau.<sup>14</sup> Hefyd, fel rhan o'r ymfudiad i'r gwasanaeth 111, clywsom fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gwella ei gyfeiriadur gwasanaethau i sicrhau bod y dewisiadau eraill sydd ar gael yn gliriach ac, erbyn hyn, mae negeseuon safonol yn ei holl gyfleusterau gofal sylfaenol. Roeddem yn falch o glywed bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd wedi bod yn rhagweithiol o ran cyfathrebu ar ddechrau pob penwythnos os bydd canolfan ar gau er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio i wasanaethau eraill.

**23.** Hefyd, clywsom am y gwaith a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i hyrwyddo dyfodiad y gwasanaeth 111 ar draws y cyfryngau cymdeithasol gan gyrraedd mwy na 66,000 o bobl a deunydd hyrwyddo'n cael ei anfon i 690 o feddygfeydd a deintyddfeydd.<sup>15</sup> Yn yr un modd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwella gwybodaeth ar ei wefan am wasanaethau y tu allan i oriau ac mae negeseuon ffôn ateb cyson wedi'u cyflwyno ar draws meddygfeydd.<sup>16</sup>

**24.** Er mwyn helpu gyda gwasanaeth cyfeirio gwell, mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell datblygu diffiniad y cytunwyd arno'n genedlaethol ynghylch gwasanaethau y tu allan i oriau ac ym mha amgylchiadau y dylai aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

**25.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd cyflwyno'r gwasanaeth 111 yn gyfle i symleiddio negeseuon cyhoeddus am wasanaethau y tu allan i oriau, gan nodi bod Llywodraeth Cymru a'r GIG yn datblygu canllawiau ynghylch y pwyntiau allweddol y dylid eu gwneud mewn negeseuon peiriant ateb meddygon teulu, ac mae rhaglen meddalwedd (ap) wrthi'n cael ei datblygu, sy'n defnyddio cyfeiriadur

---

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 23

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 30

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 243



gwasanaethau cenedlaethol, i helpu cleifion i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch pa wasanaethau i'w defnyddio.<sup>17</sup>

**26.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn fwyfwy pwysig diffinio gofal sylfaenol brys ac ail-lunio'r dull gweithredu o ran gwasanaethau y tu allan i oriau. Nodir bod y cam gweithredu hwn wedi'i godi gan y Grŵp Gofal Brys Cenedlaethol a'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol.<sup>18</sup>

**27.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y cytunwyd ar negeseuon y tu allan i oriau safonol a'u rhoi i feddygon teulu ym mis Awst 2018. Comisiynwyd Uned Gyflawni'r GIG i archwilio'r defnydd o'r negeseuon safonol hyn yng Nghymru ac mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i safoni a gwella gwefannau'r GIG.<sup>19</sup>

**28.** Hefyd, tynnwyd sylw bod cleifion, ar adegau, yn defnyddio'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar gyfer gofal arferol, o ganlyniad i bwysau ar wasanaethau yn ystod oriau.<sup>20</sup> Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthym y caiff tua 20 y cant o gleifion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau eu cyfeirio i wasanaethau iechyd neu ofal eraill, er nad yw hyn, o reidrwydd, yn golygu eu bod wedi cysylltu â'r gwasanaeth yn amhriodol. Hefyd, mae awgrymiadau bod rhai cleifion yn twyllo'r system, h.y. defnyddio gwasanaethau y tu allan i oriau er mwyn osgoi anawsterau gwneud apwyntiad gyda'u meddyg teulu eu hunain, ond nid yw'n hysbys faint.<sup>21</sup>

**29.** Bydd dull Llywodraeth Cymru o ddarparu model trawsnewidiol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol 24/7 yn helpu i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaethau mae eu hangen arnynt a bydd gwaith parhaus yn y maes hwn yn helpu i wella hyn ymhellach.

**30.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod gwasanaethau y tu allan i oriau fel rhai sy'n darparu mynediad at wasanaethau brys pan fo meddygfa ar gau ac ni all y mater aros nes i'r feddygfa ailagor. Esboniodd Judith Paget y canlynol:

“...the distinction and our ability to communicate with the population around numbers to call will be much easier when we simplify the system by having 111 as a national number available to everybody, because we'll be able to communicate that, if you've got something

---

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>19</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-11-19 Papur 2](#), 29 Ebrill 2019

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-08-19 Papur 2](#), 18 Mawrth 2019

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 247 a 286

that threatens life or limb, you ring 999, and, if you're not sure about anything else, you ring 111 and let the call handler support you and help you."<sup>22</sup>

**31.** Clywsom fod cleifion yn defnyddio gwasanaethau oherwydd bod ganddynt angen, ond nad oes angen i'r angen hwnnw ddechrau bob amser gydag adran damweiniau ac achosion brys, na gwasanaeth y tu allan i oriau brys. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio technoleg i helpu i wella gwasanaeth cyfeirio ymhellach drwy gael cyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol, sy'n nodi'r dewisiadau sydd ar gael, yn amrywio o ddarpariaeth y GIG a llywodraeth leol i'r trydydd sector.<sup>23</sup> Cytunodd y rhan fwyaf o'r tystion â'r angen am ddiffiniad o wasanaethau y tu allan i oriau, ond mynegodd rhai bryderon y gallai gweledigaethau gwahanol ar gyfer darparu gwasanaethau y tu allan i oriau ei gwneud hi'n anodd cytuno ar ddiffiniad. Fodd bynnag, clywsom y gallai'r gydymffurfiaeth sy'n deillio o gael diffiniad sicrhau bod adnoddau ar gael ar lefel resymol ar draws Cymru a bod y cyhoedd yn cael lefel gyfartal o ofal.<sup>24</sup>

**32.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthym ei bod yn parhau i fod yn her sicrhau bod y negeseuon yn syml a bod y manau mynediad at y system gofal heb ei drefnu'n glir.<sup>25</sup>

**33.** Clywsom y byddai diffiniad hefyd yn helpu i nodi safle'r gwasanaethau y tu allan i oriau ar y llwybr gofal heb ei drefnu cyffredinol ac yn helpu pobl i wella dealltwriaeth o ble a phryd y gellir cael mynediad at wasanaeth y tu allan i oriau ar hyd y llwybr hwnnw.<sup>26</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**34.** Mae'n hanfodol bod cleifion yn cael gwybodaeth glir a hawdd ei deall i'w helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd fwyaf priodol i'w hanghenion, yn enwedig pan fydd ganddynt bryderon gofal brys y tu allan i oriau arferol.

**35.** Mae'r dystiolaeth a glywsom wedi tynnu sylw at rai gwelliannau o ran cyfeirio cleifion i wasanaethau y tu allan i oriau ac mae mwy o gysondeb o ran negeseuon ynghylch lle a sut i ddefnyddio gwasanaethau'n briodol.

---

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 43

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 49

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 36

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 288

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 253

**36.** Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod perfformiad gwael yn deillio o wasanaeth cyfeirio gwael gan fod hyn yn rhoi'r bai ar gleifion, nid y gwasanaeth. Mewn gwirionedd, ni ellir disgwyl i gleifion wneud eu diagnosis meddygol eu hunain ac, yn aml, maent yn ffonio gwasanaethau y tu allan i oriau oherwydd eu bod yn poeni. Mae angen sicrwydd arnynt ynglŷn â'u pryderon neu sicrwydd sy'n dod o wybod y dylent fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys a'u bod wedi gwneud y peth cywir drwy ffonio.

**37.** Er enghraifft, nid yw rhiant â gofal plentyn sy'n sâl ar nos Sadwrn yn mynd i aros tan y bore Llun a mentro y bydd yn cael apwyntiad gyda meddyg teulu. Mae angen gwasanaeth ar gleifion ar gyfer sicrwydd neu driniaeth gynnar.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod capasiti yn y gwasanaeth y tu allan i oriau i roi sicrwydd i gleifion a'u helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd fwyaf priodol i'w hanghenion.

**38.** Rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o wella ymhellach ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i gleifion drwy ei chynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol 24/7, yn enwedig drwy ddarparu cyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol, yn ogystal â chyfeiriaduron gwasanaethau lleol mewn rhai byrddau iechyd. Mae sefydlu'r dull amlddisgyblaethol o ran timau gofal sylfaenol rydym eisoes wedi siarad amdanynt yn mynd i fod yn hollbwysig wrth sicrhau y gall cleifion gael gafael ar ystod ehangach o ymarferwyr iechyd a gofal mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol.

## 4. Cydymffurfio â safonau cenedlaethol

**39.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu nad yw byrddau iechyd yn cyrraedd safonau cenedlaethol o ran prydlondeb ateb galwadau ac ymdrin â hwy. Roedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i fyrddau iechyd gyrraedd y safonau hyn erbyn mis Mawrth 2018.<sup>27</sup> At hynny, awgrymodd yr adroddiad nad oedd byrddau iechyd yn cyrraedd safonau blaenorol ar gyfer prydlondeb apwyntiadau wyneb yn wyneb nac ymweliadau cartref ychwaith.<sup>28</sup>

**40.** Er y pwysleisiodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol safbwyntiau cadarnhaol cleifion am wasanaethau y tu allan i oriau, awgrymodd hefyd ddarlun mwy cymysg o safbwyntiau ynghylch prydlondeb.<sup>29</sup> Adlewyrchwyd y materion hyn hefyd mewn adroddiad gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol bod cleifion yn aml yn “gorfod aros am hir cyn siarad efo rhywun”. Galwodd yr adroddiad hwnnw am gynnydd yn nifer y rhai sy'n ateb galwadau a chamau gweithredu i leihau'r gyfradd sy'n diffodd y ffôn.<sup>30</sup>

**41.** Nododd argymhelliad 2 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod gwaith ar droed i ddiweddarau'r safonau cenedlaethol, i adlewyrchu'r dulliau newydd o weithio rhwng y gwasanaeth 111 a'r gwasanaethau y tu allan i oriau.<sup>31</sup> Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi cyfres newydd o Safonau a Mesurau Gweithgarwch a fydd yn disodli'r safonau blaenorol. Nod y safonau newydd yw sicrhau mwy o gysondeb dros gyfnod 24/7 a disgwyliwyd i Lywodraeth Cymru ddechrau monitro'r safonau newydd ar 1 Ebrill 2019.<sup>32</sup>

**42.** Nodwn fod cyfres newydd o Safonau a Mesurau Gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau 111 a'r tu allan i oriau yng Nghymru wedi'u datblygu drwy gydweithrediad agos rhwng clinigwyr gwasanaethau y tu allan i oriau, rheolwyr gwasanaethau a Llywodraeth Cymru. Rhannwyd y rhain yn eang â'r GIG cyn eu

---

<sup>27</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 19, Gorffennaf 2018

<sup>28</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 20, Gorffennaf 2018

<sup>29</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 21, Gorffennaf 2018

<sup>30</sup> Adroddiad Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, cam 1

<sup>31</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 10 – argymhelliad 2, Gorffennaf 2018

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

---

cyhoeddi ym mis Mawrth 2019 a chânt eu monitro yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.<sup>33</sup>

**43.** Canfu adroddiad lleol yr Archwilydd Cyffredinol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddiffyg cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol blaenorol ac, er bod y bwrdd iechyd yn ateb galwadau y tu allan i oriau'n gyflymach na llawer o wasanaethau eraill<sup>34</sup>, dim oedd nifer y galwadau cofnodedig a derfynwyd, sy'n awgrymu ei bod yn bosibl bod gwallau yn nata'r bwrdd iechyd. Canfu'r adroddiad lleol hefyd fod prydlondeb galwadau yn ôl i gleifion yn un o broblemau mwyaf parhaus y gwasanaeth a bod y perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru.<sup>35</sup> Dangosodd yr adroddiad hefyd berfformiad cymysg o ran prydlondeb ymweliadau ac apwyntiadau cartref y bwrdd iechyd.<sup>36</sup>

**44.** Tynnodd tystiolaeth ysgrifenedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sylw at welliant cyffredinol o ran prydlondeb brysbennu, ymweliadau cartref ac apwyntiadau, er ei bod yn ymddangos nad yw'r safonau cenedlaethol blaenorol yn cael eu cyrraedd yn gyffredinol. Nid yw'r cyflwyniad yn rhoi data ar brydlondeb ateb galwadau ac mae'n nodi rhywfaint o anfodlonrwydd cleifion ar yr amser y mae'n ei gymryd i gael galwad yn ôl ac amseroedd aros mewn clinigau.

**45.** Wrth ateb cwestiynau ar sut y mae gwelliannau wedi'u cyflawni a pha gamau gweithredu eraill sydd yn yr arfaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthym ei fod wedi recriwtio staff ychwanegol i wneud gwaith brysbennu a chynyddu hyfforddiant staff. Mae'r bwrdd hefyd wedi datblygu protocol ardystio marwolaeth sy'n galluogi nyrsys i ardystio marwolaethau, a oedd yn cyfrif am gyfran fawr o ymweliadau cartref meddygon teulu.<sup>37</sup>

**46.** O ran ateb galwadau, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrthym fod problemau blaenorol wrth gasglu data perfformiad yn y maes hwn bellach wedi'u cywiro.

**47.** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am ei barn am yr anawsterau a wynebir gan fyrddau iechyd o ran cyrraedd y safonau cenedlaethol blaenorol ar

---

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-19-19 PTN3, 8 Gorffennaf 2019

<sup>34</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau](#), Tudalen 28, Mawrth 2018

<sup>35</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau](#), Tudalen 29, Mawrth 2018

<sup>36</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau](#), Tudalen 31, Mawrth 2018

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 256

gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi bod yn gweithredu mewn amgylchedd heriol ac anodd. Yn amlwg, mae anawsterau o ran llenwi sifftiau a denu'r gweithlu wedi cael effaith barhaus ar allu'r byrddau iechyd i gyrraedd rhai o'r safonau cenedlaethol blaenorol.<sup>38</sup>

**48.** Problem arall a nodwyd i ni oedd bod y Safonau Cenedlaethol blaenorol wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau yn ystod oriau arferol, yn ogystal â gwasanaethau y tu allan i oriau. Achosodd hyn broblem oherwydd bod y rhan fwyaf o'r gweithlu sydd ar gael i gefnogi cleifion drwy'r system yn gweithredu'n fwy cyffredinol rhwng naw a phump, o ddydd Llun i ddydd Gwener, nag y mae ar sail 24/7.<sup>39</sup>

**49.** Esboniwyd bod gan y safonau newydd fwy o deimlad clinigol am yr hyn y gellir ei gyflawni ac mae'n ymddangos bod y timau clinigol yn hapusach bod ganddynt fynediad at fesurau ansawdd bellach.<sup>40</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**50.** O ran y dyfodol, mae gennym bryder o hyd ynghylch y ffordd y caiff gwelliannau i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau eu mesur. Mae'n hollbwysig bod y safonau newydd a osodir gan Lywodraeth Cymru yn cyflawni'r canlyniad dymunol, sef ysgogi gwelliannau, gan sicrhau mwy o gysondeb dros y cyfnod 24 awr o ran darparu gofal sylfaenol a chyfres addas o fesurau perfformiad y gall cynnydd arnynt gael ei fesur yn gywir. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae hyn yn cael ei gyflawni

---

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 56

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 57

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 59

## 5. Ariannu'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau

**51.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos bod cyllid tybiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau wedi parhau fwy neu lai'n sefydlog, gyda gwariant gwirioneddol byrddau iechyd ar wasanaethau y tu allan i oriau'n cynyddu ychydig, o £31.7 miliwn i £35.2 miliwn rhwng 2009-10 a 2016-17.<sup>41</sup> Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod gwariant ar wasanaethau y tu allan i oriau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn amrywio'n fawr yn ôl y bwrdd iechyd.<sup>42</sup>

**52.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyllid tybiannol wedi aros yn sefydlog, ond yn pwysleisio bod byrddau iechyd yn gwario mwy ar wasanaethau y tu allan i oriau na'r swm a ddyrennir iddynt. Mae data hefyd yn dangos bod gwariant byrddau iechyd ar wasanaethau y tu allan i oriau wedi cynyddu o £35.2 miliwn yn 2016-17 i £35.8 miliwn yn 2017-18.<sup>43</sup>

**53.** Mae tystiolaeth Cymdeithas Feddygol Prydain yn nodi bod cyllid ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau wedi bod yn annigonol dros gyfnod sylweddol o amser, a chyflwynwyd data sy'n awgrymu nad yw buddsoddiad mewn gwasanaethau y tu allan i oriau wedi dilyn chwyddiant.<sup>44</sup>

**54.** Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ni nad yw arian yn ysgogiad allweddol yn y gwasanaeth y tu allan i oriau ac nad yw'r bwrdd iechyd yn ceisio arbed arian. Yn lle hynny, mae'r bwrdd iechyd yn ceisio gwario ei gyllideb i sicrhau bod sifftiau'n cael eu llenwi a bod canolfannau'n parhau i fod ar agor.<sup>45</sup> Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn wynebu anawsterau ariannol parhaus ac nid yw'r ffordd bresennol o weithio y tu allan i oriau'n gynaliadwy yn ariannol nac yn glinigol.<sup>46</sup>

**55.** Clywsom fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi buddsoddi £887,000 ychwanegol yn ei wasanaeth y tu allan i oriau dros y ddwy flynedd diwethaf, gan fynd â'r gyllideb gyffredinol i £5.2 miliwn. Hefyd, mae'r Bwrdd

---

<sup>41</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 25, Gorffennaf 2018

<sup>42</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 26, Gorffennaf 2018

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-25-18 Papur 4, 1 Hydref 2018

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-08-19 Papur 3, 18 Mawrth 2019

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 151

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraffau 156 i 161

Iechyd wedi gwneud buddsoddiad anghylchol o £560,000 yn 2016-17 a £700,000 yn 2017-18.<sup>47</sup>

**56.** Mae byrddau iechyd yn gwario mwy ar wasanaethau y tu allan i oriau na'u dyraniad tybiannol gan Lywodraeth Cymru, ac mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi mynegi pryderon ynghylch lefel cyllid gwasanaethau y tu allan i oriau. Roeddem am ddarganfod yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i sicrhau ei hun bod yr arian y mae'n ei ddarparu'n ddigonol i fyrddau iechyd allu darparu gwasanaethau o ansawdd da.

**57.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi tueddu i newid o'r llinell gyllideb a chydabod bod angen ei hailosod er mwyn cofnodi'n well y gwasanaethau y tu allan i oriau presennol a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru. Yna, gallai llinellau cyllideb yn y dyfodol fod yn fwy cywir, gyda disgrifiad cyfoethocach o'r buddsoddiad mewn gwasanaethau y tu allan i oriau a gwariant gwirioneddol.

**58.** Pwysleisiodd Dr Goodall fod perygl o rythu ar y gyllideb sy'n gymwys i wasanaethau y tu allan i oriau yn unig sy'n cynrychioli'r dull gweithredu traddodiadol o ran gwasanaethau y tu allan i oriau, yn hytrach nag edrych ar yr ystod ehangach o wasanaethau sy'n cael eu rhoi ar waith i'w defnyddio y tu allan i oriau.<sup>48</sup>

**59.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r heriau ynghylch cyfraddau tâl meddygon teulu mewn gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'r adroddiad yn nodi bod rhai byrddau iechyd yn cynyddu cyfraddau tâl ar fyr rybudd pan fyddant yn cael trafferth llenwi sifftiau, a all fod yn anghymhelliaid i staff gofrestru ar gyfer sifftiau ymlaen llaw.<sup>49</sup> Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod byrddau iechyd gwahanol yn talu cyfraddau gwahanol ar gyfer sifftiau meddygon teulu, gan greu marchnad anghyson ar gyfer meddygon teulu.<sup>50</sup>

**60.** Mae adroddiad Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yn nodi gwahaniaethau mewn trefniadau cyflog rhwng byrddau iechyd, ac yn nodi bod byrddau iechyd yn adolygu cyfraddau tâl meddygon teulu, "gan gynnwys bonws am weithio sifftiau

---

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 366

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 63

<sup>49</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 27, Gorffennaf 2018

<sup>50</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 27, Gorffennaf 2018



dol a thaliadau untro i annog MT i'w hardaloeddoedd".<sup>51</sup> Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r GIG gytuno ar "sut mae MT yn cael eu talu i ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau, er mwyn osgoi cystadleuaeth rhwng ardaloedd daearyddol".<sup>52</sup>

**61.** Mae Adroddiad Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn nodi'r canlynol:

"working conditions and remuneration policies need to reflect the antisocial nature of the hours and the high-risk high-stress nature of the work."<sup>53</sup>

**62.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthym y cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r chwydd-dro tâl a bod byrddau iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru yn gweithio ar yr un cyfraddau tâl lle bynnag y bo'n bosibl.<sup>54</sup>

**63.** Gwnaethom ofyn i ba raddau mae byrddau iechyd yn cystadlu â'i gilydd, yn hytrach na chydweithio, i lenwi sifftiau meddygon teulu, a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn ac i osgoi chwydd-dro tâl.

**64.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod ganddi dystiolaeth anecdotaidd bod sifftiau Meddygon Teulu heb eu llenwi oherwydd bod meddygon teulu wedi dewis gweithio mewn mannau eraill oherwydd cyfraddau cyflog anghyson. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei fod wedi dod yn broblem sylweddol gyda mwy o sifftiau'n cael eu llenwi na pheidio. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r mater a dywedodd y bydd yn gweithredu os bydd angen.<sup>55</sup>

**65.** Clywsom y gwnaed buddsoddiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar ôl trafodaethau â meddygon teulu ynghylch yr hyn a fyddai'n eu hannog i weithio yn y gwasanaeth y tu allan i oriau. Er bod cyfraddau tâl weithiau'n cael eu trafod, roedd y mater yn ymwneud yn fwy â meddygon teulu'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, cael tîm fel nad oeddent yn ynysig, a bod ganddynt wasanaethau y gallent eu defnyddio. Mae'r Bwrdd wedi buddsoddi mewn gwasanaeth nyrsio ardal dros nos fel y gallai'r nyrsys ardal fod yno dros nos i gefnogi meddygon teulu. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi ehangu i gynnwys gwasanaethau eiddilwch fel rhan o fuddsoddiad ar y cyd ag awdurdodau lleol, fel bod gan feddygon teulu

---

<sup>51</sup> Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), Tudalen 6, Mai 2018

<sup>52</sup> Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), Tudalen 7, Mai 2018

<sup>53</sup> Adroddiad Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, cam 4

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraffau 379 a 380

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraffau 176 - 183

fynediad at wasanaethau eraill ar y penwythnos. Helpodd hyn gyda chyfraddau llenwi, a gynyddodd i oddeutu 90 y cant dros y gaeaf diwethaf.<sup>56</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**66.** Rydym yn pryderu nad yw'r model ariannu presennol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau wedi dilyn sut y bu angen i'r gwasanaethau hyn, a gofal sylfaenol yn fwy cyffredinol, ddatblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gyda dyraniad tybiannol hanesyddol i fyrddau iechyd sydd wedi aros yn sefydlog ar y cyfan ers 2004/05, a chyda byrddau iechyd yn gorfod gwneud buddsoddiadau ychwanegol, sy'n anghylchol yn aml, ymddengys nad yw'r model ariannu presennol yn gynaliadwy nac yn glir.

**67.** At hynny, nid yw'n glir i ni a yw'r wybodaeth ariannol gywir ar gael i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw ei threfniadau ariannu gwasanaethau y tu allan i oriau'n ddigonol ai peidio.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n dyrannu cyllid i fyrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y dyraniadau'n adlewyrchu'r anghenion gwasanaeth presennol yn fwy cywir ac yn rhoi mwy o dryloywder o ran buddsoddiad a gwariant gwirioneddol.

**68.** Rydym wedi clywed pryderon am wahaniaethau mewn trefniadau cyflog rhwng byrddau iechyd sy'n arwain at anghysondeb o ran meddygon teulu rhwng ardaloedd daearyddol. Mae hyn wedi arwain at broblemau wrth lenwi sifftiau y tu allan i oriau mewn rhai ardaloedd. Ni wnaeth tystiolaeth Llywodraeth Cymru ein hargyhoeddi gan nad yw hyn yn fater sylweddol a chredwn fod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw cyfraddau tâl anghyson yn peri problemau o ran llenwi sifftiau.

**69.** Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i edrych y tu hwnt i faterion yn ymwneud â thâl ac ar ffactorau eraill i annog meddygon teulu i weithio yn y gwasanaeth y tu allan i oriau. Credwn y bydd cefnogaeth well i feddygon teulu sy'n gweithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau a sicrwydd bod gwasanaethau eraill ar gael i'w cefnogi, eto gan ddefnyddio'r model amlddisgyblaethol, yn gwneud gwasanaethau y tu allan i oriau yn lle mwy deniadol i weithio ynddo.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu arfer da ar draws byrddau iechyd yng Nghymru wrth wneud gwasanaethau y tu allan

---

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, 20 Ebrill 2019, paragraff 65

i oriau'n lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt, fel y dull gweithredu a fabwysiadwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## 6. Problemau staffio a morâl

**70.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at broblemau mewn perthynas â morâl mewn gwasanaethau y tu allan i oriau ac yn nodi rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at forâl gwael, gan gynnwys canfyddiadau o ddiffyg staff, oriau gwrthgymdeithasol a diffyg datblygiad gyrfa.<sup>57</sup> Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i gynnal prosiect cenedlaethol i ymgysylltu â staff gwasanaeth y tu allan i oriau, er mwyn deall ffactorau sy'n achosi morâl gwael ac sy'n atal staff rhag gweithio yn y gwasanaethau hyn.<sup>58</sup>

**71.** Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi bod yn gweithio gyda byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill dros y 12 mis diwethaf i geisio deall sut i wneud gwasanaethau y tu allan i oriau'n lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt.<sup>59</sup>

**72.** Mae adroddiad Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn nodi'r canlynol:

“At present, GPs and other out-of-hours staff go over and beyond to try to make things work in extremely difficult circumstances. This is not sustainable. Things need to change; services need to be safe and pleasant place to work.”<sup>60</sup>

**73.** Ymhellach, mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn sôn am fygythiad critigol gan nad yw'r gweithlu meddygon teulu yn tyfu'n ddigon cyflym i ateb y galw cynyddol.<sup>61</sup> Yn yr un modd, mae llythyr gan Gymdeithas Feddygol Prydain yn cyfeirio at y prif ffactorau sy'n atal meddygon rhag gweithio y tu allan i oriau, gan gynnwys blinder yn sgil gwaith yn ystod oriau arferol a chyfraddau cyflog anneniadol.<sup>62</sup>

**74.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym ei fod wedi cynnig gwerth £16,000 o gymhellion i lenwi sifftiau ar benwythnos penodol ond na

---

<sup>57</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalennau 22 - 23, Gorffennaf 2018

<sup>58</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 10 – argymhelliad 3, Gorffennaf 2018

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>60</sup> Adroddiad Coleg Brenhinol Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, [Meeting urgent needs: Improving out-of-hours services in Wales](#), tudalen 1, mis Awst 2018

<sup>61</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-08-19 Papur 2](#), 18 Mawrth 2019

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-08-19 Papur 3](#), 18 Mawrth 2019

lwyddodd i sicrhau gweithwyr ychwanegol. Awgrymodd y dystiolaeth nad y tâl oedd y prif ffactor a oedd yn cymell meddygon teulu. Yn lle hynny, os ydynt ar eu pen eu hunain heb gydweithiwr, ni fyddant yn gweithio.<sup>63</sup>

**75.** Roedd gwaith unigol hefyd yn fater a gododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda ni a dywedodd wrthym ei fod wedi ariannu meddyg teulu ychwanegol i weithio dros nos, gan gydnabod ei fod yn wasanaeth eithaf ynysig i weithio ynddo.<sup>64</sup>

**76.** Tynnodd dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru sylw at waith gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i greu adnodd ar-lein ac ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhoi gwybodaeth gyson am wasanaethau y tu allan i oriau ac annog diddordeb mewn gweithio yn y maes hwn. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru hefyd yn gweithio gyda'r gymuned y tu allan i oriau i gyflwyno modiwlau hyfforddiant, datblygu swyddi newydd a threfnu cynhadledd genedlaethol ar wasanaethau y tu allan i oriau.<sup>65</sup>

**77.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod gwasanaethau dan straen oherwydd problemau morâl a staffio sy'n bygwth cydnerthedd gwasanaethau. Tynnodd arolwg staff a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sylw at forâl gwael mewn gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn cynnwys canfyddiadau o ddiffyg staff, oriau gwrthgymdeithasol a diffyg datblygiad gyrfa. Gall y ffactorau hyn fod yn atal staff rhag gweithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau.

**78.** Mae adroddiad y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn nodi'r canlynol:

“Adroddodd mwyafrif y byrddau iechyd nad oes digon o Feddygon Teulu i ddarparu'r gwasanaeth yn gyson. Mae hyn oherwydd yr anhawster maent yn ei gael i recriwtio MT i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau, a nifer y sifftiau mae MT yn barod i'w gweithio.”<sup>66</sup>

**79.** Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain wrthym fod ei haelodau'n cael negeseuon e-bost a negeseuon testun yn rheolaidd gan gydlynwyr gwasanaethau y tu allan i oriau, yn gofyn iddynt weithio sifftiau.<sup>67</sup>

---

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 104

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 371

<sup>65</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-11-19.Papur.2](#), 29 Ebrill 2019

<sup>66</sup> Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), Tudalen 5, Mai 2018

<sup>67</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-08-19.Papur.3](#), 18 Mawrth 2019

---

**80.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod 99 o safleoedd wedi cau<sup>68</sup> yn ei wasanaeth y tu allan i oriau ers mis Mai 2017.<sup>69</sup>

**81.** Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae rhai byrddau iechyd yn ymgysylltu â staff i wella cyfraddau tâl ac amgylcheddau gwaith. Clywsom fod pryderon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda nad oedd meddygon teulu'n teimlo bod croeso iddynt os oeddent yn gweithio mewn ysbyty neu mewn adran cleifion allanol fel canolfan. Mae morâl wedi gwella oherwydd newidiadau i'r amgylchedd gwaith, symud canolfan i leoliad gwahanol, a datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda grŵp cynghori meddygon teulu i nodi ymrwymadau'r bwrdd iechyd iddynt.<sup>70</sup>

**82.** Roedd modd i ni gael trafodaeth ymarferol o rai o'r materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd gwaith i'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau yn ystod ein hymweliadau safle. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn effaith cydleoli gwasanaethau y tu allan i oriau mewn adrannau achosion brys mewn ysbytai.

**83.** Dywedodd staff yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd wrthym fod cydleoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn aml yn gadael cleifion yn troi'n amhriodol i'r Adran Achosion Brys, yn hytrach nag i'r gwasanaeth y tu allan i oriau. Yn Ysbyty Maelor Wrecsam, dywedodd staff wrthym fod cydleoli yn ei gwneud yn anodd i nyrsys yn y gwasanaeth y tu allan i oriau beidio â chamu i mewn a helpu'r Adran Achosion Brys. Mae hyn yn aml yn golygu y gall Gwasanaethau Brys ddibynnu arnynt yn hawdd am eu cefnogaeth, gan gymryd eu hamser o'r gwasanaethau y tu allan i oriau.

**84.** Dywedodd staff wrthym hefyd mai mater arall sy'n codi o gydleoli yw bod manau aros yn cael eu rhannu â gwasanaethau eraill. Dywedwyd wrthym fod angen ystyried man aros a mynedfeydd ar wahân i wasanaethau y tu allan i oriau, gan y gallai hyn helpu i osgoi sylwadau bod "pobl yn neidio'r ciw" pan fyddant yn defnyddio gwasanaeth gwahanol mewn gwirionedd. Wedi dweud hynny, dywedodd staff y tu allan i oriau wrthym hefyd fod cael y ddau wasanaeth yn yr un lleoliad yn galluogi cleifion i symud yn rhwydd rhwng y ddau, sy'n fuddiol o ran sicrhau bod cleifion yn cael y gwasanaethau priodol a chywir ar gyfer eu hanghenion.

---

<sup>68</sup> Os yw gwasanaeth y tu allan i oriau yn dioddef pwysau/prinder staff penodol, gall ddewis cau un neu fwy o'i ganolfannau dros dro.

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 83

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 74

**85.** Roedd ein hymweliadau safle hefyd yn cyd-fynd â thystiolaeth arall a glywsom fod gwasanaethau y tu allan i oriau'n lleoedd llai deniadol i weithio ynddynt na gwasanaethau yn ystod oriau arferol. Er bod nyrsys y tu allan i oriau'n cael eu hannog a'u talu i ymgymryd â chyrsgiau hyfforddi perthnasol i wella eu llwybrau gyrfa, a chlywsom fod y sefyllfa staffio'n llawer llai anhrefnus nag o'r blaen, mae rhai nyrsys yn dal i adael gwasanaethau y tu allan i oriau i weithio mewn meddygfeydd. Gall hyn fod yn wir hefyd i feddygon teulu, lle y mae cystadleuaeth ychwanegol ar ddenu meddygon teulu o wasanaethau yn ystod oriau arferol, a gwasanaethau ar-lein preifat, a all dalu cyfraddau uwch yn aml na'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'r symudiadau staff hyn yn achosi prinder staff mewn rhai achosion, yn ogystal ag amharu ar wasanaethau a lefelau staffio.

**86.** Mae Ysbyty Maelor Wrecsam mewn sefyllfa arbennig o anodd, gan ei fod mor agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sy'n golygu ei fod hefyd yn cystadlu â'r graddfeydd tâl uwch i feddygon teulu yn Lloegr. Mae byrddau iechyd yn cystadlu am yr un gronfa o staff ac, oherwydd sifftiau anghymdeithasol, cyfraddau tâl anghyson, a diffyg staff, yn aml y gwasanaeth y tu allan i oriau sy'n dioddef.

**87.** Esboniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod gwella morâl staff yn flaenoriaeth uchel a bod gwaith yn cael ei wneud i ddangos gwerth gwasanaethau y tu allan i oriau a'i ymgorffori mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. Cydnabu'r bwrdd iechyd fod mwy i'w wneud o ran cadw staff a bod cynnal y ddeialog wyneb yn wyneb â meddygon teulu yn allweddol i hynny.<sup>71</sup>

**88.** Yn gysylltiedig â chadw staff, gwnaethom holi am achosion cau gwasanaethau y tu allan i oriau ym mis Mawrth 2018 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a nifer y gweithiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae'r bwrdd iechyd wedi gorfod cau un neu fwy o'i ganolfannau gwasanaethau y tu allan i oriau. Clywsom fod 99 o ganolfannau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cau<sup>72</sup> yn ei wasanaeth y tu allan i oriau ers mis Mai 2017. Un o'r problemau mwyaf o ran morâl y bwrdd iechyd yw bod tipyn o "gylch dieflig", pan fo staff yn gwybod na fydd digon o staff i weithio'r holl sifftiau, nid ydynt am dderbyn sifft a gwybod y byddant yn gweithio ar sifft dan fwy o bwysau.

**89.** Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o'r prinder meddygon teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oherwydd daearyddiaeth a symudiad i'r system III, gan fod rhai meddygon teulu o'r farn bod asesu cleifion dros y ffôn yn achosi straen ac nad ydynt yn fodlon bod yn gyfrifol am dair sir ar eu pen eu hunain.

---

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 77

<sup>72</sup> Os yw gwasanaeth y tu allan i oriau yn dioddef pwysau/prinder staff penodol, gall ddewis cau un neu fwy o'i ganolfannau dros dro.

Hefyd, mae problemau gyda chyfraddau cyflog meddygon locwm gwahanol mewn byrddau iechyd gwahanol sydd wedi'i gwneud yn anodd denu meddygon teulu locwm i Gaerfyrddin a bod meddygon teulu iau'n chwilio am yrfaeodd portffolio, sy'n cynnwys rhywfaint o waith y tu allan i oriau ar y penwythnos, ond nid sifftiau nos.<sup>73</sup>

**90.** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd wedi rhoi cynnig ar gymhellion ariannol i ddenu meddygon teulu i lenwi sifftiau heb ddim llwyddiant gan nad yw'r meddygon teulu am weithio ar eu pen eu hunain. Clywsom nifer o resymau pam nad oedd meddygon teulu am weithio sifftiau y tu allan i oriau, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar anghenion a phersonoliaethau unigolion. Hefyd, cadarnhawyd ofnau meddygon teulu o weithio ar eu pen eu hunain gan Dr Sherard Lemaitre, meddyg teulu sy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a ddywedodd wrthym y byddai gweithio mewn tîm llawn yn creu amgylchedd gwaith gwell.<sup>74</sup>

**91.** Fodd bynnag, dywedodd Dr Lemaitre wrthym hefyd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio ar recriwtio, cadw a hyfforddi staff i ddangos bod y gwasanaeth y tu allan i oriau yn amgylchedd gwaith diogel. Esboniodd fod brysbennu hefyd yn faes gwaith a oedd yn codi ofn ar feddygon teulu, ond bod cydnabyddiaeth, erbyn hyn, fod asesiad llawn dros y ffôn yn rhan bwysig o swydd meddyg teulu. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bellach yn darparu hyfforddiant blynyddol i feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, yn ogystal â hyfforddeion meddygon teulu y mae'n bosibl y byddant, ar ryw adeg, am weithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau. Clywsom hefyd y bydd datblygu timau amlddisgyblaethol i gefnogi meddygon teulu yn helpu i lenwi sifftiau y tu allan i oriau ac yn creu'r amgylchedd gwaith tîm hapus y mae staff ei eisiau.<sup>75</sup>

**92.** Dywedodd Dr Richard Archer, meddyg teulu y tu allan i oriau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, wrthym fod angen newid y gweithlu yn y tymor hwy o fod yn wasanaeth a ddarperir gan feddyg teulu i un sydd dan arweiniad meddyg teulu, ac yna, yn olaf, yn wasanaeth dan oruchwyliaeth meddyg teulu, wrth i nifer y meddygon teulu leihau. Mae pryder yn ehangach am y dirywiad cyffredinol yn nifer y meddygon teulu ar gyfer gwasanaethau yn ystod y dydd, yn ogystal â gwasanaethau y tu allan i oriau.<sup>76</sup>

---

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 101 - 103

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 303

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 304 - 305

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 105

---



**93.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â threth a statws cyflogaeth a all atal meddygon teulu ymhellach rhag gweithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau.<sup>77</sup> Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi herio nifer o gyrff iechyd y DU yn y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â rheolau treth. Y prif fater yw a ddylid dosbarthu meddygon teulu sy'n gweithio y tu allan i oriau fel cyflogeion. Mae'r adroddiad yn nodi bod y GIG yng Nghymru yn pryderu y gallai hyn arwain at gostau annisgwyl i fyrddau iechyd ac atal rhai meddygon teulu ymhellach rhag gweithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae gwaith ar droed yn GIG Cymru i asesu effaith y materion hyn.

**94.** Mae adroddiad y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn nodi anawsterau wrth recriwtio meddygon teulu i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau, ac yn cyfeirio at un o'r ffactorau fel "newidiadau i'r ffordd mae'r system dreth yn gweithio i MT sy'n darparu'r gwasanaeth".<sup>78</sup>

**95.** Soniodd Cymdeithas Feddygol Prydain am newidiadau i statws trethiant sydd wedi gwneud gwasanaethau y tu allan i oriau yn llai deniadol i lawer o feddygon.<sup>79</sup>

**96.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod materion sy'n ymwneud â statws treth a chyflogaeth meddygon teulu wedi costio tua £300,000 i'r Bwrdd yn 2018-19. Clywsom yr ystyrir bod meddygon teulu sy'n gweithio y tu allan i oriau fel contractwyr hunangyflogedig yn cael eu cyflogi gan y bwrdd iechyd a bod y costau ychwanegol er mwyn talu costau cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.<sup>80</sup>

**97.** Gwnaethom holi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am sut roedd materion sy'n ymwneud â statws treth a chyflogaeth meddygon teulu yn effeithio ar wasanaethau y tu allan i oriau a'r hyn y mae'r bwrdd iechyd yn ei wneud i reoli'r materion hyn. Clywsom fod deialog yn parhau ynglŷn â statws cyflogaeth meddygon teulu sy'n gweithio sifftiau ad hoc fel arfer. Oherwydd yr aeth y meddygon teulu hyn o gontractwyr hunangyflogedig i gyflogeion, roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd dalu costau yswiriant gwladol y cyflogwyr, sef £300,000 yn achos Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod 2018-19. Mae hyn wedi'i

---

<sup>77</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 27, Gorffennaf 2018

<sup>78</sup> Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), tudalennau 5 - 6, Mai 2018

<sup>79</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-08-19 Papur 3](#), 18 Mawrth 2019

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 99

dynnu o gyllideb gwasanaeth y tu allan i oriau, ond awgrymwyd y dylai hyn ddod o gronfa ganolog yn y bwrdd iechyd yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad yw'n tynnu oddi ar rywfaint o'r cyllid rheng flaen y gellid ei fuddsoddi mewn gwasanaethau y tu allan i oriau.

**98.** Mae materion statws treth a chyflogaeth meddygon teulu hefyd wedi effeithio ar wasanaethau y tu allan i oriau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan arwain at oddeutu £276,000 o gostau annisgwyl, ond pryderon hefyd gan feddygon teulu ynghylch eu gallu i barhau i weithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y bwrdd wrthym na chollwyd meddygon teulu o'r gwasanaeth er gwaethaf y pryderon hyn.<sup>81</sup>

**99.** Esboniodd Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan/Cadeirydd y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol ac Arweinydd Strategol gwasanaethau y tu allan i oriau, nad oedd y pryderon ynghylch newidiadau CThEM mor sylweddol ag y disgwyliwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae materion treth yn fwy problemus ar y cyfan ym mis Mawrth, sef y cyfnod anoddaf o ran llenwi sifftiau y tu allan i oriau oherwydd ei fod yn agos at ddiwedd y flwyddyn dreth. Dyma pryd y mae meddygon teulu yn dechrau poeni bod eu hincwm yn mynd dros drothwyon treth.

**100.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod pob bwrdd iechyd yn trafod modelau staffio amgen, er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar feddygon teulu, drwy gyflogi nyrsys brysbennu, uwch nyrsys/ymarferwyr parafeddygol a fferyllwyr. Mae'r adroddiad yn nodi y bu cynnydd yn dameidiog, ac nad oedd gan unrhyw un o'r byrddau iechyd gynllun gweithlu y tu allan i oriau ar adeg ein gwaith.<sup>82</sup>

**101.** Mae tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn canolbwyntio, mewn nifer o fannau, ar gamau gweithredu'r bwrdd iechyd i ehangu model amlddisgyblaethol y gwasanaeth, gyda chyfeiriad at feddygon teulu cyngor, fferyllwyr ac uwch nyrsys, yn ogystal â gweinyddwyr a gyrwyr yn cael eu hyfforddi fel gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cyfeirio at ddau uwch ymarferydd parafeddygol sy'n cynnal ymweliadau cartref ac yn cyfrannu mewn canolfannau triniaeth, gyda thrafodaethau'n parhau i gynyddu'r model hwn yn sylweddol. Mae buddsoddiad £600,000 posibl yn arwain at 20 uwch ymarferydd ychwanegol yn ystod y 2 flynedd nesaf ac mae'r model uwch ymarferwyr parafeddygol eisoes wedi darparu cydnerthedd gaeaf ychwanegol

---

<sup>81</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraffau 316 - 317

<sup>82</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau, paragraph 1.14, Gorffennaf 2018

sylweddol mewn gwasanaeth y tu allan i oriau, a bod gofynion goruchwyllo clinigol wedi cynyddu er mwyn cefnogi uwch ymarferwyr parafeddygol.

**102.** Mae'n amlwg bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd i drafod model amlddisgyblaethol ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau, ond roeddem am gael gwybod faint o wahaniaeth gwirioneddol y mae'r rolau newydd hyn yn ei wneud a pha rwystrau y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eu hwynebu wrth weithredu'r model amlddisgyblaethol yn llawn.

**103.** Gwnaethom ofyn am y buddsoddiad £600,000 posibl mewn uwch ymarferwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac a oedd yn hyderus y byddai'n gallu recriwtio nifer yr uwch ymarferwyr y mae arnynt eu hangen. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd am roi carfan o 10 cydweithiwr ar y llwybr carlam drwy gwrs hyfforddi cyflym, ond mai gwaith ar droed yw hwn a bod y bwrdd yn eithaf pell o fodel amlddisgyblaethol o hyd.

**104.** Mae'n ymddangos bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dilyn dull gweithredu tîm amlddisgyblaethol yn llwyddiannus gyda meddygon teulu yn cael eu helpu gan ymarferydd clinigydd, arweinydd uwch nyrs a swyddogaeth weinyddol.

## Casgliadau ac argymhellion

**105.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn bod problemau parhaus sy'n golygu bod gwasanaethau y tu allan i oriau yn lleoedd anneniadol i weithio ynddynt. Mae morâl staff mewn gwasanaethau y tu allan i oriau yn her o gofio'r dystiolaeth gref a glywyd nad yw gwella morâl staff yn ymwneud yn fawr â chynnig cymhellion ariannol. Yn hytrach, i ni mae'n amlwg bod yr amgylchedd gwaith yn cael mwy o effaith ar forâl oherwydd pryderon am waith unigol, gweithio dan bwysau oherwydd sifftiau heb eu llenwi a pheidio â theimlo'n rhan o dîm sy'n cael ei werthfawrogi. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r materion hyn yn cael eu chwyddo gan fod meddygon teulu yn canfod eu bod yn gyfrifol am ardaloedd daearyddol helaeth ac yn wynebu penderfyniadau logistaidd anodd o ran blaenoriaethu cleifion.

**Argymhelliad 4.** Mae pryder gennym am y dirywiad cyffredinol yn nifer y meddygon teulu ar gyfer gwasanaethau yn ystod y dydd ar draws Cymru, yn ogystal â gwasanaethau y tu allan i oriau. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu polisiau i gynyddu nifer y meddygon teulu.

**106.** Rydym yn deall bod diffyg tryloywder yn y data ar nifer y meddygon teulu yng Nghymru am nad yw Stats Cymru yn cyhoeddi nifer y meddygon teulu

cyfwerth ag amser llawn tra'i fod yn ymchwilio i broblemau sy'n ymwneud ag ansawdd y data. Mae'r ymchwiliad bellach yn ei chweched flwyddyn yn ôl ein dealltwriaeth ni.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datrys problemau sy'n ymwneud ag ansawdd y data sydd ar gael ar nifer y meddygon teulu fel mater o frys oherwydd bod angen data gwell, gan gynnwys ar ofal y tu allan i oriau. Os mai timau amlddisgyblaethol sy'n darparu'r gwasanaethau y tu allan i oriau, mae'n hanfodol gwybod pwy sy'n gweithio ym mhob tîm, i ble y maent yn darparu'r gwasanaeth, a gallu olrhain nifer y staff dros y blynyddoedd.

**107.** Er bod ychydig o arfer rhagorol mewn rhai byrddau iechyd i wella morâl staff, rydym yn pryderu na wnaed digon mewn rhai rhannau o Gymru i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod nifer o broblemau'n codi yn sgil anghydraddoldebau cyflog meddygon teulu o gymharu hyn â'r sefyllfa yn Lloegr, yn ogystal â materion trethiant fel yr adroddwyd i ni mewn tystiolaeth. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau gweithredu a gymerwyd i wneud hynny.

**108.** Rydym yn croesawu'r arferion arloesol a ddefnyddir mewn rhai byrddau iechyd i ddatblygu model amlddisgyblaethol sy'n cefnogi dull gweithredu tîm i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau. Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae defnyddio tîm o feddygon teulu cyngor, fferyllwyr ac uwch nyrsys ynghyd â gweinyddwyr a gyrwyr yn cael eu hyfforddi fel gweithwyr cymorth gofal iechyd, yn mynd i'r afael â phryderon sydd gan feddygon teulu am weithio ar eu pen eu hunain ac yn cynnig amgylchedd tîm gwerthfawr i weithio ynddo.

**109.** Yn yr un modd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gwnaethom gydnabod buddion dilyn dull gweithredu tîm amlddisgyblaethol gyda meddygon teulu yn cael eu cefnogi gan ymarferydd clinigydd, arweinydd uwch nyrs a swyddogaeth weinyddol.

**110.** Rydym yn dod i'r casgliad y bydd dull gweithredu amlddisgyblaethol o ran darparu gwasanaethau y tu allan i oriau yn hybu morâl staff gan y bydd sifftiau llawn a gwaith tîm yn annog staff i weithio mewn gwasanaethau y tu allan i oriau ac yn creu amgylchedd gwaith gwell. Yn y dyfodol, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi tystiolaeth i ni o sut y mae arfer da'n cael ei rannu o ran gweithredu modelau amlddisgyblaethol.

## 7. Rheoli perfformiad

**111.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod diffyg gwybodaeth am ansawdd a pherfformiad gwasanaethau'n rhwystro trefniadau i lywodraethu, cynllunio a rheoli gwasanaethau'n genedlaethol ac yn lleol.

**112.** Hefyd, tynnodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sylw at yr amllder y mae Byrddau a phwyllgorau'r GIG yn cael gwybodaeth am wasanaethau y tu allan i oriau. Yn ein harolwg o aelodau Bwrdd y GIG, dim ond 40 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon ar ansawdd y wybodaeth a gawsant.<sup>83</sup> Ymhellach, mae'n dweud bod rhai o'r bobl y cyfwelwyd â hwy yn ystod gwaith maes yr archwiliad yn teimlo mai'r unig adeg y bydd gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael digon o sylw ar lefelau uwch mewn byrddau iechyd yw pan fo'r gwasanaeth yn dechrau dioddef problemau gweithredol.<sup>84</sup> Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio codi proffil gwasanaethau y tu allan i oriau drwy ei chyfarfodydd rheoli perfformiad rheolaidd â byrddau iechyd.<sup>85</sup>

**113.** Tynnodd canfyddiadau'r adroddiad sylw hefyd at fylchau a phroblemau sylweddol o ran cymaroldeb yn nata misol y gwasanaeth y tu allan i oriau y mae byrddau iechyd yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae rhai problemau cymharu data'n cael eu hachosi oherwydd y ffaith bod gan wasanaethau gwahanol fersiynau gwahanol o feddalwedd Adastra, er bod gwaith yn mynd rhagddo i safoni'r ffordd y mae data gwasanaethau y tu allan i oriau'n cael eu cofnodi.<sup>86</sup>

**114.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod y safonau cenedlaethol yn her yn yr ardaloedd gwledig yn y bwrdd iechyd, lle y mae pum canolfan yn cael eu cynnal ar draws ardal ddaearyddol Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Os yw un o'r canolfannau hyn yn cael ei chau, gall fod yn heriol iawn cyrraedd y safonau mynediad.<sup>87</sup>

---

<sup>83</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 29 – paragraffau 1.23 – 1.24, Gorffennaf 2018

<sup>84</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 29, Gorffennaf 2018

<sup>85</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 29 – paragraff 1.25, Gorffennaf 2018

<sup>86</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 30, Gorffennaf 2018

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, 17 Mai 2019, paragraff 40

**115.** Er enghraifft, clywsom achosion lle mai dim ond un meddyg teulu sy'n gyfrifol am ardal, y gall fod ganddo ddwy alwad ar wahân â blaenoriaeth uchel i ymateb iddynt, ond bod rhai galwadau â blaenoriaeth is yn y canol yn ddaearyddol. Mae'n anodd peidio ag ymateb i'r galwadau hynny wrth fynd heibio iddynt ar y llwybr rhwng y ddwy alwad â blaenoriaeth uchel.<sup>88</sup>

**116.** Ymhellach, mae realiti'r amgylchedd gwledig a'r ffordd y mae meddygon teulu yn rheoli galwadau ar y sifft yn golygu bod yn rhaid iddynt, weithiau, adael i'r galwadau â blaenoriaeth uwch aros oherwydd bod y galwadau â blaenoriaeth is wedi bod yn aros yn rhy hir neu y gellir eu datrys yn gyflym.

### Safonau a rheoli perfformiad

---

**117.** Gwnaethom holi'r tystion a oedd awydd i safonau cenedlaethol gael eu hailddiffinio ac a fyddai hyn yn achosi problemau oherwydd diffyg cysondeb safonau rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau a gwasanaethau iechyd brys eraill, a fyddai'n cynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac adrannau argyfwng.

**118.** Un o'r materion y tynnwyd ein sylw atynt yw bod safonau gwasanaethau y tu allan i oriau'n anhygoel o uchel, o'u cymharu ag ymarfer yn ystod y dydd, nad oes rhaid i staff clinigol eraill eu cyflawni. Pe bai safonau'n cael eu hailddiffinio i bawb, mae'n bosibl y byddai gwelliant mewn safonau ar draws gwasanaethau.<sup>89</sup>

**119.** Mae adroddiad lleol yr Archwilydd Cyffredinol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydnabod gwelliannau yn nhrefniadau adrodd a monitro perfformiad gwasanaeth y tu allan i oriau y bwrdd iechyd. Mae'r adroddiad yn nodi bod y bwrdd iechyd wedi gwneud gwaith sylweddol i buro ei ddata perfformiad, ond bod rhai problemau o hyd, gan arwain at anawsterau meincnodi. Mae'r adroddiad yn awgrymu trefniadau cymharol dda yn y bwrdd iechyd ar gyfer adrodd ar ddata y tu allan i oriau i'r tîm gweithredol a'r Bwrdd.

**120.** Gwnaethom ofyn beth y mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn ei wneud i fynd i'r afael â rhai o'r problemau gweddilliol a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ansawdd ei ddata perfformiad ar y gwasanaethau y tu allan i oriau.

**121.** Esboniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod gwaith wedi'i wneud i fireinio ei ddulliau adrodd gyda'r holl fesurau perfformiad gwasanaeth y tu allan i oriau'n cael eu rhoi gerbron y bwrdd bob tro y mae'n cyfarfod, gan sicrhau gwelededd a chodi proffil gwasanaethau y tu allan i oriau ar lefel Bwrdd. Mae'r

---

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 42

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 68

Bwrdd hefyd wedi edrych y tu hwnt i ffigurau perfformiad yn unig i fesur dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Er enghraifft, clywsom fod y Bwrdd wedi edrych ar nifer y sifftiau a lenwyd, yn ogystal â'r oriau a weithiwyd yn y bore, yn y prynhawn a chyda'r hwyr a defnyddio'r wybodaeth honno i drafod â'r timau pa gamau gweithredu y mae angen eu cymryd. Mae'r data'n cael eu defnyddio i helpu i roi hwb i wella gwasanaethau.<sup>90</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**122.** Rydym yn rhannu pryderon yr Archwilydd Cyffredinol nad yw rhai byrddau iechyd yn cael gwybodaeth ddigon manwl am sut y mae eu gwasanaethau y tu allan i oriau'n perfformio. Fodd bynnag, roedd yn galonog clywed am y dull gweithredu y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei ddilyn i atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad gwasanaethau y tu allan i oriau i fireinio ei dulliau adrodd, gan gynnwys defnyddio data ansoddol i ddeall yn llawn yr hyn sy'n digwydd wrth ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymhell bod yr arfer da ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, o ran atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad, yn cael ei rannu â byrddau iechyd eraill a bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar sut y gall wella trefniadau o ran rhannu arfer da. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o gyfarwyddyd, lle y bo'n bosibl, o ran arfer o'r fath a monitro cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau a roddir.

**123.** O ran gwella trefniadau rheoli perfformiad ymhellach, credwn ei bod yn bwysig bod byrddau iechyd yn edrych ar y berthynas rhwng gwasanaethau yn ystod oriau arferol a gwasanaethau y tu allan i oriau i ddeall sut y mae'r ddau'n rhyngweithio. Er enghraifft, gall gwasanaethau yn ystod oriau arferol gynyddu neu leihau'r galw ar wasanaethau y tu allan i oriau, gan ddibynnu ar sut y cânt eu trefnu a pha mor hawdd ydyw i gael apwyntiadau yn ystod oriau arferol.

**124.** Mae'n bwysig bod dulliau gweithredu yn y dyfodol o ran data rheoli perfformiad yn ystyried gwasanaethau gofal sylfaenol yn gyffredinol a sut y mae'r rhain yn cydberthyn i wasanaethau y tu allan i oriau.

---

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraffau 348 - 351

## 8. Cynllunio strategol ac arweinyddiaeth gwasanaethau y tu allan i oriau

**125.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi nad oes strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'n dweud nad yw'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol na'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth 111 yn rhoi gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Yn benodol, nid oes gweledigaeth glir ynghylch sut y dylai gwasanaethau y tu allan i oriau ddarparu apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau cartref.<sup>91</sup>

**126.** Mae argymhelliad 6 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac eraill weithio gyda'i gilydd i brofi a lledaenu arferion da wrth gynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau cartref. Dylai hyn arwain at fodel clir i'w weithredu'n lleol neu'n rhanbarthol.<sup>92</sup>

**127.** Mae gan Lywodraeth Cymru grŵp newydd ei ffurfio dan arweiniad Judith Paget, sy'n gweithio i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau, ond mae'n debygol y bydd yr agweddau wyneb yn wyneb ar wasanaethau y tu allan i oriau'n parhau i fod yn gyfrifoldeb statudol byrddau iechyd. Bydd Grŵp Gofal Brys newydd yn ystyried modelau gofal gwahanol a chyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol.<sup>93</sup> Mae'r grŵp hefyd yn goruchwyllo gwaith, gan gynnwys yr Adolygiad Cymheiriaid, gweithgor gweithlu ac addysg, gwaith galw a chapasiti a gwaith amlddisgyblaethol.<sup>94</sup>

**128.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw gwaith cynllunio gwasanaethau y tu allan i oriau wedi'i integreiddio'n briodol â gwasanaethau allweddol eraill. Bydd y gwasanaeth 111 newydd yn mynd i'r afael â rhai problemau integreiddio, ond ni fydd yn datrys yr holl broblemau sy'n wynebu'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol wendidau yng ngwaith cynllunio gwasanaethau y tu allan i oriau'n genedlaethol ac, er bod dau gynllun cenedlaethol yn sôn am gyfeiriad strategol gwasanaethau y tu allan i oriau, nid yw'r naill na'r llall yn rhoi darlun cynhwysfawr o ddyfodol y gwasanaethau hyn.

---

<sup>91</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 33, Gorffennaf 2018

<sup>92</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 12, Gorffennaf 2018

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-11-19 Papur 2](#), 29 Ebrill 2019



**129.** Er enghraifft, mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth 111 yn nodi'r model ar gyfer ateb galwadau, gwybodaeth a chyngor 24 awr y dyfodol, ond nid oes model o'r fath ar gyfer gwasanaethau wyneb yn wyneb fel apwyntiadau ac ymweliadau cartref. Nid yw byrddau iechyd yn cyrraedd safonau prydlondeb cenedlaethol ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau cartref. Heb gynllun na model strategol clir ar gyfer darparu'r gwasanaethau wyneb yn wyneb hyn mewn ffyrdd newydd, arloesol, mae'n debygol y bydd byrddau iechyd yn parhau i gael trafferth cyrraedd y safonau yn y dyfodol.

**130.** Dywedodd tystion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod safoni ei brosesau drwy weithredu'r gwasanaeth 111 wedi cael newid sylweddol. Ar ôl symud o dair system i un, mae meddygon teulu mewn sefyllfa well i gefnogi ei gilydd ar draws y tair sir a byddant yn gweithio sifftiau pan fo angen.<sup>95</sup>

**131.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos, os bydd y GIG yn cynllunio'r gwasanaethau y tu allan i oriau yn ynysig oddi wrth y gwasanaethau eraill, y gall hyn achosi problemau.<sup>96</sup> Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned wedi nodi cynnydd yn y galw am wasanaethau y tu allan i oriau, "yn enwedig pan fo pobl yn cael trafferth cael apwyntiad yn ystod oriau arferol".<sup>97</sup>

**132.** Mae adroddiad Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol hefyd yn tynnu sylw at y gyd-ddibyniaeth rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol yn ystod oriau arferol a'r gwasanaethau y tu allan i oriau ac yn dweud ei bod yn hanfodol bod adnoddau'n cael eu darparu i leddfu'r pwysau ar feddygon teulu yn ystod oriau arferol a sicrhau nad yw problemau'n gorlifo i'r cyfnod y tu allan i oriau.<sup>98</sup>

**133.** Yn y dyfodol, bwriad Llywodraeth Cymru yw edrych ar y ddarpariaeth o ystod ehangach o wasanaethau, a mynediad atynt, yn y cyfnod y tu allan i oriau, a hefyd y model 24/7 ar gyfer gofal sylfaenol. Yn ogystal, mae Fframwaith Polisi newydd ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu yn cael ei ddatblygu.<sup>99</sup>

**134.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru wedi'u cael wrth benderfynu ar y lle gorau ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau yn eu

---

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, 17 Mai 2019, paragraff 11

<sup>96</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 32, Gorffennaf 2018

<sup>97</sup> Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, [Breuder gwasanaethau MT y Tu Allan i Oriau yng Nghymru](#), Tudalen 6, Mai 2018

<sup>98</sup> Adroddiad Coleg Brenhinol Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, [Meeting urgent needs: Improving out-of-hours services in Wales](#), cam 5, Awst 2018

<sup>99</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

strwythurau rheoli. Mae'r adroddiad hefyd yn dweud bod cyfrifoldeb am wasanaethau y tu allan i oriau, mewn rhai byrddau iechyd, wedi'i rannu rhwng dau neu fwy o weithredwyr, a allai fod yn ddryslud o ran atebolrwydd.<sup>100</sup>

**135.** Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad y gall diffyg eglurder mewn trefniadau arweinyddiaeth olygu y caiff gwasanaethau y tu allan i oriau eu hynysu rywfaint o feysydd gwasanaeth eraill.<sup>101</sup> Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at faterion gyda'r trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau'n genedlaethol. Mae'r adroddiad yn nodi maint cymharol fach Tîm Gofal Brys Llywodraeth Cymru, ac nad yw gwasanaethau y tu allan i oriau wedi bod yn faes o bwys mawr i'r arweinydd proffesiynol cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol.<sup>102</sup>

**136.** Mae argymhelliad 7 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei threfniadau arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Dylai'r adolygiad ystyried a oes angen arweinyddiaeth fwy penodol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau'n genedlaethol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried rôl Fforwm Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Cymru Gyfan, ac a yw ei waith wedi'i gydgyssylltu'n ddigonol â gwaith y grwpiau GIG cenedlaethol eraill.<sup>103</sup>

**137.** Mae Llywodraeth Cymru yn annog mwy o arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ac yn derbyn bod angen egluro materion atebolrwydd a bod Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wedi'i phenodi'n arweinydd strategol cenedlaethol gwasanaethau y tu allan i oriau.<sup>104</sup>

**138.** Gan dderbyn argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i wella rhywfaint o'r gwaith arwain a goruchwylio cenedlaethol, rôl yr arweinydd strategol cenedlaethol fydd arwain grŵp a fydd yn adolygu ac yn asesu model y gwasanaethau y tu allan i oriau, yn enwedig gyda'r gwasanaeth I11 ar y gorwel; cynghori ar gamau gweithredu cenedlaethol; adolygu ac argymhell cyfres ddiwygiedig o safonau; a chynghori ar ofynion o ran adnoddau. Mae gwaith wedi'i wneud i safoni'r system y tu allan i oriau a chynhaliwyd cyfres o fentrau gaeaf i

---

<sup>100</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 34, Gorffennaf 2018

<sup>101</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 34, Gorffennaf 2018

<sup>102</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 35, Gorffennaf 2018

<sup>103</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau](#), tudalen 13, Gorffennaf 2018

<sup>104</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-25-18 Papur 4](#), 1 Hydref 2018

alluogi pobl i brofi ffyrdd gwahanol o ymateb i'r galw y tu allan i oriau, sydd wrthi'n cael eu gwerthuso. Hefyd, mae adolygiad cymheiriaid o ateb galwadau yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a gwaith ar y galw a'r capasiti, yn ogystal â disgrifiadau rôl cenedlaethol i'w cwblhau, gwerthusiad o gynllun y gaeaf, a gwaith ar uwchgyfeirio a metrigau.<sup>105</sup>

**139.** O ran integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau â gwasanaethau eraill, clywsom fod gwasanaethau y tu allan i oriau mewn ardaloedd lle y mae'r gwasanaeth 111 eisoes wedi cyrraedd yn rhan allweddol o hynny, a bod cael gwasanaeth y tu allan i oriau cryf a chydnerth yn bwysig i lansio'r gwasanaeth 111 yn llawn, gan sicrhau y caiff gofal sylfaenol ei ystyried dros gyfnod 24/7, gyda dull gweithredu tebyg ond efallai ychydig yn wahanol i wasanaethau sydd ar gael y tu allan i oriau, ar y penwythnos neu dros wyliau banc, na'r hyn sydd ar gael o ddydd i ddydd.<sup>106</sup>

**140.** Dywedwyd wrthym fod gwerthusiad diweddar y Bwrdd Gofal Sylfaenol o drefniadau a wnaed gan fyrdau iechyd i sicrhau bod y galw yn cael ei ateb dros fisoedd y gaeaf, wedi llywio ffrwd waith 24/7 y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Mae'r gwersi sy'n dod i'r amlwg o'r gwerthusiad yn cael eu rhannu â grwpiau perthnasol ac ar ôl cwblhau hyn, byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol a'r Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu Cenedlaethol a'u rhaeadru i'r rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrdau iechyd a'u partneriaid ddefnyddio'r gwersi hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.<sup>107</sup>

**141.** Esboniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod cynaliadwyedd gofal sylfaenol yn ystod oriau arferol yn bwysig o ran gweithredu gwasanaethau y tu allan i oriau, ac i'r gwrthwyneb. Galwodd y bwrdd i'r system gyfan gael ei hadolygu.<sup>108</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**142.** Yn sgil y pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol am ddiffyg strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau, rydym yn croesawu datblygiad Llywodraeth Cymru o'r Grŵp Gofal Brys, dan arweiniad arweinydd cenedlaethol – Judith Paget, sy'n gweithio i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau bod y dull gweithredu cenedlaethol uwch o ran arweinyddiaeth cynllunio strategol ar

---

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraffau 227 - 228

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 233

<sup>107</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-19-19 PTN3, 8 Gorffennaf 2019

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraffau 279 i 282

gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael ei ailadrodd yn lleol. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i gael diweddariadau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol sy'n nodi sut y mae'r uwch drefniadau ar gyfer arweinyddiaeth genedlaethol a strategaeth yn troi'n welliannau gwasanaeth.

## 9. Y berthynas rhwng y gwasanaeth 111 a gwasanaethau y tu allan i oriau

**143.** Mae cyflwyno'r gwasanaeth 111 yn gyfle allweddol i integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau â gwasanaethau eraill yn well. Bydd y gwasanaeth 111 yn ateb galwadau, ac yn cynnig gwybodaeth a chynngor 24 awr. Yn bwysig, bydd yn cynnig gwasanaeth ateb galwadau a brysbenneu integredig y tu allan i oriau, yn ogystal â Galw Iechyd Cymru. Mae cynllun braenaru 111 yn dangos canlyniadau calonogol ac, er bod gweithredu'r gwasanaeth 111 yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, erbyn hyn mae gan y GIG yng Nghymru gynllun ac achos busnes sy'n cynllunio cyflwyniad cenedlaethol llawn. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fydd y bwrdd iechyd olaf i weithredu'r gwasanaeth 111 a bydd y gwaith i'w gyflwyno'n dechrau yn Chwarter 4 2020-21. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn nodi cost gyffredinol gweithredu'r gwasanaeth 111 ar draws Cymru. Yn benodol, nid yw'r cynllun yn nodi cost gweithredu system gyfrifiadurol integredig i ddisodli'r systemau presennol yn y gwasanaeth 111 a'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Ar adeg y gwaith drafftio, roedd y Rhaglen 111 genedlaethol yn drafftio achos busnes ar gyfer y system gyfrifiadurol integredig.

**144.** Mae adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod cyflwyno'r gwasanaeth 111 wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl.<sup>109</sup> Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael eu darparu fwyfwy drwy wasanaeth 111 y GIG dros y tair blynedd nesaf.<sup>110</sup>

**145.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y system TG genedlaethol i ategu'r gwasanaeth 111 yn datblygu'n dda, gyda'r gwasanaeth yn cychwyn ym mis Hydref 2020.<sup>111</sup> Bydd y gwasanaeth 111 yn cael ei gyflwyno i fyrddau iechyd Cwm Taf ac Aneurin Bevan yn 2019/20, gyda "seibiant" yn hydref 2019/20 i gyflwyno system TG newydd. Disgwylir i'r gwaith o'i gyflwyno'n llawn ar draws Cymru gael ei gwblhau erbyn 2021/22.<sup>112</sup>

**146.** Mae argymhelliad 8 o adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau'r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau

---

<sup>109</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau, tudalen 35, Gorffennaf 2018

<sup>110</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-25-18 Papur 4, 1 Hydref 2018

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-25-18 Papur 4, 1 Hydref 2018

<sup>112</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-11-19 Papur 2, 29 Ebrill 2019

ac asesu'r achos busnes ar gyfer y system gyfrifiadurol integredig fydd yn disodli systemau presennol y gwasanaeth 111 a'r gwasanaethau y tu allan i oriau.<sup>113</sup>

**147.** O ran pam mae cyflwyno'r gwasanaeth 111 wedi cymryd mwy o amser nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd seibiant bwriadol i weld hyn y gwaith o'i gyflwyno ar draws gweddill y DU, a dysgu gwersi o hynny.<sup>114</sup> Cydnabu Llywodraeth Cymru fod y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth 111 yn rhaglen newid sylweddol a'i fod wedi cymryd amser i fagu hyder drwy gyflwyno'r system yn raddol, datblygu profiad, mynd â thimau clinigol a datblygu sefyllfa fwy cydnerth.<sup>115</sup>

**148.** Tynnodd Cymdeithas Feddygol Prydain ein sylw at bryderon sylweddol ynghylch cyflwyno'r gwasanaeth 111 oherwydd problemau gydag algorithm brysbennu a blaenoriaethu'r gwasanaeth, ac oherwydd pwysau staffio yng nghanolfan glinigol 111.<sup>116</sup>

**149.** Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod y gwasanaeth 111 wedi golygu newid sylweddol i natur gwaith meddygon teulu y tu allan i oriau, gan symud y ffocws o gysylltiadau wyneb yn wyneb i gysylltiadau dros y ffôn. Achosodd hyn ychydig o anhapusrwydd ymhlith meddygon teulu a thipyn o gythrwfl yn ystod y cyfnod o newid.<sup>117</sup>

**150.** O ran asesu cryfderau a gwendidau'r ffordd y mae'r gwasanaeth 111 yn gweithredu ar draws Cymru ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwerthusiad helaeth o'r cynllun braenaru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Gan ddefnyddio cymorth allanol, edrychodd y gwerthusiad ar ganlyniadau, profiad y claf ac ystod o ddangosyddion eraill. Gwnaed rhagor o waith gyda chymorth y cyngor iechyd cymuned i ystyried profiad y claf ac efallai y caiff mwy o waith gwerthuso ei wneud ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth 111 yn llawn ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Cwm Taf<sup>118</sup>, i ystyried rhagor o wersi y gallai fod angen eu gweithredu cyn ei gyflwyno ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<sup>119</sup>

---

<sup>113</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau, tudalen 14, Gorffennaf 2018

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 240

<sup>115</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2018, paragraffau 241 -242

<sup>116</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-08-19.Papur.3, 18 Mawrth 2019

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, 18 Mawrth 2019, paragraff 20

<sup>118</sup> O 1 Ebrill 2019, enwau'r byrddau iechyd bellach yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

<sup>119</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 244

**151.** Roeddem yn awyddus i ddarganfod a oedd gan Lywodraeth Cymru ddarlun clir o faint y bydd y gwasanaeth 111 yn ei gostio i'w gyflwyno i bob bwrdd iechyd, ei gostau cynnal parhaus, a chost y system gyfrifiadurol integredig newydd, ac i ba raddau y bydd yn cynrychioli gwerth gwell am arian na'r trefniadau blaenorol.

**152.** Bydd angen rhywfaint o gynnydd mewn adnoddau ar gyfer y gwasanaeth 111 ac mae gan Lywodraeth Cymru dîm rhaglen canolog clir a chyfarwyddwr rhaglen i arwain hyn ac mae'n darparu'r arbenigedd ar yr allbwn. Rhagwelir mai tua £3 miliwn fydd y gost refeniw i bob bwrdd iechyd yng Nghymru dros 14 blynedd ac mae opsiynau ar y contract i estyn hynny. O ystyried maint y gwasanaeth y tu allan i oriau a'i gymhlethdod, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod hyn yn fuddsoddiad da o ran ei gyllideb gyffredinol ar hyn o bryd.<sup>120</sup>

## Casgliadau ac argymhellion

**153.** Rydym yn credu bod cyflwyno'r gwasanaeth 111 yn gyfle allweddol i integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau â gwasanaethau eraill yn well. Yn bwysicaf, bydd yn cynnig gwasanaeth ateb galwadau a brysbennu integredig y tu allan i oriau, yn ogystal â Galw Iechyd Cymru. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu dim goddefgarwch ar gyfer unrhyw wrthwynebiad i newid gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr adnoddau sylweddol sydd eu hangen i gyflwyno'r gwasanaeth 111 a byddwn yn awyddus i fonitro'r cynnydd a'r ddarpariaeth ar ôl ei gyflwyno'n llawn yn 2021/22.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymhell bod ein pwyllgor olynol yn y chweched Cynulliad yn trafod cynnydd a llwyddiant gweithredu'r gwasanaeth 111 ar ôl ei gyflwyno'n llawn yn 2021/22.

---

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2019, paragraff 246